| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | **Enwau lleoedd lleol sy'n deillio o eirfa 'Y Lleidr Pen-ffordd'** |
| Disgrifiad: | Chwilio am enwau lleoedd sy'n cynnwys 'gwaun/waun', 'rhos', 'nant', 'croes' ac unrhyw afonydd yn yr ardal.<br>Creu map o'r ardal leol sy'n cynnwys yr enwau hyn. |
| Blynyddoedd ysgol: | Bl 5 a 6 |
| Sgìl Rhaglen Astudio posib: | Ysgrifennu / Ysgrifennu'n gywir / Iaith |
| Testun T. Llew Jones | 'Y Lleidr Pen-ffordd', *Trysorfa T. Llew Jones*, t.56 |
| Offer angenrheidiol: | Mapiau OS – gallan nhw fod yn lleol iawn neu'n cwmpasu ardal ehangach.<br>I'w pharatoi **ymlaen llaw**, rhestr gan yr athro o enwau lleoedd lleol sy'n cynnwys 'nant', 'gwaun', 'rhos', 'croes' ac enwau afonydd a nentydd lleol sydd ar y map y bydd y dysgwyr yn ei astudio.<br>'Geiriadur Cynradd Gomer' gan D. Geraint Lewis neu eiriaduron ar-lein. |
| Trefn a awgrymir: | • Darllen ail bennill y gerdd 'Y Lleidr Pen-ffordd', lle mae Twm Siôn Cati'n marchogaeth ei geffyl o gwmpas yr ardal.<br>• Tasg chwilio: gofyn am ddiffiniad o 'nant', 'afon', 'gwaun', 'rhos'. Ble gall y dysgwyr ddod o hyd i'r diffiniadau hyn? Pa fath o dir sydd ar 'waun' a 'rhos'?<br>• Tynnu sylw hefyd at linell gyntaf y trydydd pennill: 'Mae'n aros ar y groesffordd'. Dweud bod 'croes/groes' hefyd yn enw sy'n ymddangos mewn enwau lleoedd lle mae dwy ffordd yn croesi ei gilydd neu lle roedd croes yn arfer sefyll.<br>• Ydy'r dysgwyr yn gallu meddwl am enwau lleol sy'n cynnwys yr elfennau hyn? Gofyn am enghreifftiau cyn dosbarthu'r mapiau.<br>• Y dysgwyr yn chwilio ar y map ac yn creu rhestr o enwau lleoedd ac enwau afonydd/nentydd.<br>• Creu map syml o'r ardal o gwmpas yr ysgol, gan nodi'r enwau lleoedd hyn. Creu rhestr sy'n cynnwys cyfeirnodau grid ar gyfer pob enw. |
| Gweithgareddau gwahaniaethol: | Edrych ar fap o Gymru gyfan, gan chwilio am enwau lleoedd cyffelyb, e.e. Abergwaun, Nant-y-glo, Rhostryfan, Rhosllannerchrugog, y Groes-faen.<br>Chwilio am elfennau eraill sy'n amlwg yn enwau lleoedd yr ardal leol. Â pha nodweddion daearyddol y mae'r rhain yn gysylltiedig? |